| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Medi 2013** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Diweddariad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC)** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae adroddiad perfformiad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) yn seiliedig ar y blaenoriaethau a gytunwyd fel y nodwyd yn yr archwiliad troseddau sy'n cael ei gynnal yn flynyddol gan y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cytuno ar y blaenoriaethau am gyfnod o dair blynedd, fodd bynnag fe ddiweddarir y cynllun yn flynyddol gydag unrhyw faterion sy'n codi.

1.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad y PDC ar gyfer 2012-2013 a'r sefyllfa gyfredol ar gyfer chwarter cyntaf 2013/14.

1.3 Mae adroddiad perfformiad llawn ar gyfer 2012/13 yn Atodiad 1 ac mae adroddiad perfformiad chwarter cyntaf 2013/14 yn Atodiad 2.

1.4 Mae perfformiad PDC yn cael ei drafod yn flynyddol gan Archwilio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu Pwyllgor Archwilio Partneriaethau o berfformiad y PDC.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Yr argymhellion yw bod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn nodi cynnwys yr adroddiad perfformiad atodol, a darparu sylwadau o adborth i'r PDC.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Fe grëwyd PDC yn 1998 i ddatblygu a gweithredu Strategaethau a chynlluniau gweithredu i leihau trosedd ac anrhefn. Roedd gan bob Awdurdod eu PDC eu hunain. Tua 4 blynedd yn ôl fe unodd timau PDC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (CBSC), a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn un tîm unigol, gyda CBSC yn brif gyflogwyr. Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sy'n arwain rheolaeth y PDC yng Nghyngor Sir Ddinbych.

4.2 Mae trefn cyfarfodydd y PDC yn cynnwys:

- Grŵp Strategol - sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn - mae Graham Boase, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, (Cyng D Smith) a'r Cyng Bill Tasker (Cynrychiolydd CSDd ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) yn mynychu'r cyfarfod hwn i gynrychioli CSDd.

- Grŵp Gweithredu – grŵp gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod unrhyw broblemau sy'n codi – mae Graham Boase ac Emlyn Jones yn cynrychioli CSDd yn y cyfarfod hwn.

- Grŵp Comisiynu Camddefnydd Sylweddau – Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob chwarter a'r bwriad yw gwneud penderfyniadau comisiynu ynglŷn â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Cynrychiolydd CSDd yw Alaw Pierce.

- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - yn cael ei gynnal bob chwe wythnos ac mae Tim Wynne-Evans yn mynychu ar ran CSDd.

4.3 Pum maes blaenoriaeth PDC ar gyfer 2011-2014 yw:

1. Lleihau troseddau a'r effaith ar y gymuned drwy:

    - Leihau troseddau treisgar
    - Monitro troseddau rhywiol difrifol
    - Lleihau troseddau meddiangar difrifol
    - Lleihau nifer yr unigolion sy'n dioddef trosedd fwy nag unwaith

2. Lleihau aildroseddu drwy:

    - Leihau aildroseddu ymysg y troseddwyr cyson
    - Lleihau troseddu gan droseddwyr dan 18 oed

3. Taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sy'n effeithio ar yr amgylchedd drwy:

    - Leihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig
    - Lleihau argaeledd alcohol i bobl ifanc
    - Lleihau nifer yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
    - Cynyddu nifer y Rhybuddion Cosb Benodedig a roed oherwydd trosedd amgylcheddol'

4. Lleihau niwed a achoswyd gan alcohol a chamddefnyddio sylweddau drwy:

    - Gynyddu cysylltiadau newydd gan y Gwasanaeth Lleihau Niwed
    - Cynyddu nifer yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio i driniaeth strwythurol

5. Taclo cam-drin domestig yn effeithiol drwy:

    - Monitro digwyddiadau domestig a throseddau domestig

- Gwella ymateb yr holl asiantaethau perthnasol i ddioddefwyr cam-drin domestig

4.4 Mae gan bob maes Blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Rydym yn adolygu'r holl ystadegau'n chwarterol ac yn gweithredu ar unrhyw faterion sy'n codi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gwaith y PDC yn diwallu blaenoriaethau'r Cynllun Mawr, y Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau/amcanion nifer o wasanaethau yn y Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae gweithgarwch y Cynllun Gweithredu wedi'u hariannu'n llawn gan y grant.

6.2 Mae'r PDC yn derbyn cyllid grant penodol i ddarparu Cynllun Diogelwch Cymunedol. Mae'r cynllun yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdodau Cyfrifol sydd ar Grŵp Strategol y PDC.

Mae cyllid PDC Sir Ddinbych fel a ganlyn:

(a) Cronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau - £683,511 – Cyllid Llywodraeth Cymru. Bwriad y gronfa hon yw comisiynu gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnydd sylweddau.

(b) Cronfa Cymunedau Diogelach - £166,939 – Cyllid Llywodraeth Cymru – gyda'r bwriad o leihau troseddwyr ifanc.

(c) Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd - £38,000 – Cyllid llywodraeth ganolog – ar gyfer materion lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Wedi'i atodi fel Atodiad 3 mae adroddiad safonol sgrinio CBS Conwy sydd wedi'i ddefnyddio ar gyfer adroddiadau Archwilio CBS Conwy a CSDd oherwydd bod y gwaith PDC yn gydweithfa.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd y PDC yn 2010 ar Gynlluniau Gweithredu 2011-2014 gyda'r holl Awdurdodau cyfrifol (Cyfarwyddwr Awdurdod Lleol, Tân, Heddlu, Prawf, Iechyd ac Awdurdod yr Heddlu).

8.2 Mae'r PDC yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau'r Cyngor.

8.3 Mae'r PDC yn adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth pan fo'r angen.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylid cynnwys cost darparu'r Cynllun yn y cyllid allanol sydd ar gael.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y prif risg yw nad ydym yn gwybod beth fydd cyllid diogelwch cymunedol ar gyfer 2014-2015. Ar ôl cyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd 2012 mae ein Swyddfa Gartref wedi trosglwyddo'r cyllid i'w ddyrannu gan y Comisiynydd. Byddwn yn gallu gwneud cais am gyllid ond bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Comisiynydd a bydd yn gorfod cydbwyso ceisiadau ar gyfer Gogledd Cymru. Er mwyn lliniaru'r risg byddwn yn sicrhau fod ein holl achosion busnes yn gadarn a bod gan bob prosiect ganlyniadau clir.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1

- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau (Trosolwg ac Archwilio) Trosedd ac Anrhefn 2009
- Erthygl 6.3.5 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Ffôn: 01824 706926